Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu

## Perthyn (Powys)

Perthyn, Vivian Court, Llys Felin Newydd, Abertawe, SA7 9FG

01792311980

www.perthyn.org.uk

| | |
|---|---|
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu / Dyddiadau'r ymweliadau arolygu:** | 15/07/2025, 22/07/2025 |

## Gwybodaeth am y Gwasanaeth:

| | |
|---|---|
| Gweithredir gan: | Perthyn |
| Math o Ofal: | Gwasanaeth Cymorth Cartref |
| Darpariaeth ar gyfer: | Byw â Chymorth |
| Lleoedd cofrestredig: | 0 |
| Prif iaith/ieithoedd: | Saesneg |
| Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru: | Nid yw darparwr y gwasanaeth yn diwallu anghenion y bobl o ran y Gymraeg a diwylliant Cymru ac mae'n rhaid gwella hyn. |

# Graddau:

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Gofal a Chymorth** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

# Crynodeb:

Mae Perthyn yn wasanaeth gofal cartref sy'n darparu cymorth i'r bobl sy'n byw mewn cynlluniau byw â chymorth. Mae'r bobl yn profi llesiant rhagorol drwy wasanaeth sydd wedi'i ddylunio drwy ymgynghori â nhw ac mae'n eu galluogi nhw i wneud y pethau sydd o bwys iddynt. Mae'r bobl yn cael eu hannog i fod mor annibynnol â phosibl, i gymryd risgiau ac i fyw bywydau egnïol a phrysur. Maent yn cael eu cefnogi gan staff gofal ymroddedig ac ymrwymedig a brwdfrydig sy'n eu hadnabod yn dda. O ganlyniad mae'r bobl yn datblygu yn eu hannibyniaeth ac maent yn teimlo'n hapus, yn ddiogel ac yn gyfforddus.

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth rhagorol. Mae'r bobl yn rhan o gyd-gynhyrchu eu cynlluniau a'u hadolygiadau personol lle y bo'n bosibl ac maent yn gosod eu nodau a'u targedau eu hunain. Mae amgylchedd cartrefol iawn yn y cynlluniau byw â chymorth a chaiff y bobl eu hannog i gymryd perchnogaeth o'u tai eu hunain.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth yn dda. Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr yn sicrhau bod diwylliant cadarnhaol yn cael ei hybu yn y gwasanaeth. Mae trefniadau goruchwylio a llywodraethu effeithiol ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth. Mae gweithdrefnau recriwtio cadarn ar waith er mwyn sicrhau bod y staff gofal yn cael eu recriwtio'n ddiogel ac yn briodol. Mae aelodau o'r staff yn cael amrywiaeth o hyfforddiant sydd o ansawdd da ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi.

## Canfyddiadau:

**Llesiant** **Rhagorol**

Darperir gofal rhagorol, ac mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau. Caiff y bobl eu hannog i adnabod eu canlyniadau llesiant a chânt eu cefnogi i gyflawni'r rhain. Dywedodd y bobl wrthym am eu nodau a'u dyheadau a'r ffordd y mae'r gwasanaeth wedi eu cefnogi i gyflawni'r rhain. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd gwirfoddoli, cyrsiau addysgol a gweithgareddau cymdeithasol a hamdden. Gwelsom ffotograffau, fideos a chofnodion yn cefnogi hyn, yn dangos bod gan y bobl ddigon o gyfleoedd i gyflawni eu nodau dymunol. Caiff annibyniaeth a dewis y bobl ei annog gymaint â phosibl drwy reoli risgiau cadarnhaol, gan sicrhau eu bod yn gallu cyrraedd eu potensial. Caiff y bobl eu hannog i feithrin eu cryfderau. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw *"I love it here, whatever I want to do, they will support me to do it"* a *"staff have supported me to start a college course in September, I was worried at first, but they've taken me to open days which has really helped".* Gwelsom y bobl yn cael eu hannog i gymryd perchnogaeth o'u cartref, ac mae ethos gryf iawn drwy gydol y gwasanaeth i adlewyrchu hyn.

Mae systemau ar waith gan ddarparwr y gwasanaeth i sicrhau y caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae tîm o staff cyson sy'n adnabod y bobl y maent yn eu cefnogi yn dda a gallant sylwi os ydynt yn sâl neu ddim yn teimlo eu bod yn feddyliol yn gallu cael cymorth yn effeithiol. Mae'r holl staff y gwnaethom siarad â nhw wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn gwybod sut i roi gwybod am unrhyw bryderon a allai fod ganddynt. Mae systemau ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel mewn lleoliadau byw â chymorth, gan gynnwys gwiriadau amgylcheddol. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei redeg yn ddiogel. Caiff staff eu recriwtio'n ddiogel ac yn effeithiol. Mae lefelau staffio yn briodol i gefnogi'r bobl yn ddiogel.

Gwelsom fod gan y bobl gydberthnasau cadarnhaol ag eraill yn y gwasanaeth a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn *"good friends"* a'u bod yn aml yn mynd allan i wneud gweithgareddau gyda'i gilydd. Mae gan y staff agwedd gadarnhaol tuag at eu rolau a chymhelliant i gefnogi'r bobl i fod mor annibynnol â phosibl. Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo cydberthnasau da ag aelodau o'r teulu ac mae cyfathrebu yn bwysig iawn. Dywedodd y perthnasau wrthym: *"I'm very happy with the care provided, they're always busy doing what they enjoy and that's so important".* Caiff y bobl eu cefnogi i integreiddio'n gymdeithasol ac i fod yn rhan o'u cymuned leol. Er enghraifft, mae'r bobl yn gwneud eitemau crefft i werthu yn wythnosol yn y farchnad leol ac mae eraill yn gwirfoddoli yn y gymuned leol.

## Gofal a Chymorth — Rhagorol

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth eithriadol a chânt eu cynllunio drwy ymgynghori â nhw. Caiff strategaethau eu defnyddio i gynnwys y bobl mewn penderfyniadau am eu gofal, a chânt eu teilwra i bob unigolyn. Caiff asesiad anghenion cynhwysfawr ei gyflawni gan gynnwys y person cyn i ddarpariaeth y gofal gael ei gynnig. Caiff cynllun personol ei ddatblygu gan ddefnyddio gwybodaeth o'r asesiad hwn, ac mae'n cynnwys gwybodaeth fanwl am sut mae'r unigolyn yn dymuno cael eu cefnogi. Caiff dewisiadau ac anghenion unigol y bobl eu cofnodi'n amlwg iawn yn eu cynlluniau wedi'u personoli'n helaeth. Caiff cyfarfodydd o adolygiad y gofal eu cynnal â'r person a/neu eu cynrychiolydd, a chânt eu cynnwys wrth gynllunio'r cynllun. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, gofynnir i'r bobl am adborth am eu gofal ac os hoffent newid unrhyw beth. Caiff cofnodion cyfarfodydd manwl a chynhwysfawr iawn eu nodi a chaiff canlyniadau eu cofnodi, sy'n cael eu hadolygu yn y cyfarfod nesaf. Mae'r staff gofal yn nodi'r gofal a roddir i'r bobl ac mae goruchwylio da o'r hyn mae'r bobl yn ei wneud bob dydd. Gwelsom amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu yn cael eu defnyddio sy'n galluogi'r bobl i fynegi eu hanghenion a'u dymuniadau. Mae'r staff yn cael hyfforddiant yn y dulliau cyfathrebu hyn, a gwnaethom eu gweld yn defnyddio hyn yn ystod ein hymweliadau.

Caiff y bobl eu gwahodd i gael mewnbwn i ddatblygiadau'r cwmni. Er enghraifft, yn ddiweddar mae'r bobl wedi bod yn rhan o ddatblygu llyfr gwirio iechyd a diogelwch newydd sydd bellach yn cael ei ddefnyddio. Yn ddiweddar, maent hefyd wedi bod yn rhan o ddatblygu cwrs hyfforddi staff o'r enw ‘Who’s house is this anyway’ sydd wrthi'n cael ei ddatblygu, ond bydd wedi ei gwblhau yn fuan.

Caiff meddyginiaeth y bobl ei rheoli'n ddiogel a gweithredir yn gyflym a phriodol ar unrhyw newidiadau i iechyd. Gwnaethom edrych ar y gweithdrefnau storio a rhoi meddyginiaeth yn y gwasanaeth a gwelsom eu bod yn ddigonol a phriodol. Gwelsom gofnodion rhoi meddyginiaeth (MAR) sy'n cael eu cwblhau yn gywir heb fylchau amlwg. Caiff y bobl eu cefnogi i reoli eu meddyginiaeth eu hunain gydag ychydig o gymorth lle y bo'n bosibl, a gwelsom y gweithdrefnau i adlewyrchu hyn. Mae systemau ar waith i gyfrif meddyginiaeth yn rheolaidd i leihau unrhyw wallau. Cynhelir archwiliadau rheolaidd i sicrhau y caiff meddyginiaethau eu rheoli'n effeithiol yn y gwasanaeth. Gwelsom gofnodion o apwyntiadau ac atgyfeiriadau o fewn cynlluniau'r bobl ac roedd unrhyw gamau dilynol yn cael eu cofnodi. Mae'r staff yn cael hyfforddiant priodol i roi meddyginiaeth, ar y cyd â hyfforddiant gloywi rheolaidd.

Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod risg y bobl o gael haint yn cael ei leihau drwy hyrwyddo arferion hylendid effeithiol, a sicrhau bod digon o gynhyrchion glanhau ar gael i ddiwallu anghenion y bobl. Caiff deunyddiau glanhau eu storio'n ddiogel ac mae cyflenwadau digonol o gyfarpar rheoli heintiau ar waith. Caiff y bobl eu cefnogi i sicrhau bod eu cartrefi yn lân ac yn daclus ac roedd y rhai y gwnaethom ymweld â nhw yn groesawgar, yn gartrefol ac yn lân iawn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

**Da**

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau gan fod trefniadau sefydliadol, trefniadau llywodraethu a threfniadau goruchwylio effeithiol ar waith gan ddarparwr y gwasanaeth i sicrhau bod y gwasanaeth yn rhedeg yn ddidrafferth ac yn cynnig gofal o ansawdd uchel. Mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwr yn hawdd mynd atynt ac yn weladwy yn y gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaethau yn rheolaidd ac yn casglu adborth gan y bobl, eu teuluoedd a'u perthnasau. Defnyddir yr adborth hwn i wneud newidiadau a gwelliannau lle y bo'n angenrheidiol. Caiff adolygiadau o ansawdd y gofal eu cwblhau bob dwy flynedd fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau ac maent yn cynnwys manylion da am y gwasanaeth, ei lwyddiannau, ac unrhyw welliannau sydd wedi eu nodi neu eu cynllunio. Mae'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn monitro safonau'r gwasanaeth yn agos drwy systemau archwilio sydd wedi'i trefnu yn eithriadol. Caiff unrhyw gamau sy'n deillio o'r archwiliadau hyn eu rhoi ar waith. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau ar waith a chânt eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r staff yn gwybod sut i gael gafael ar y rhain ac maent yn gyfarwydd â nhw. Mae'r datganiad o ddiben yn adlewyrchu'r gwasanaeth ac yn dda. Mae'r canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn drylwyr a llawn gwybodaeth, ac mae'n esbonio beth i'w ddisgwyl gan y cymorth sydd ar gael.

Gwnaethom edrych ar ffeiliau personél a gwelsom fod gweithdrefnau recriwtio cadarn iawn ar waith pan gaiff staff newydd eu recriwtio. Mae hyn yn cynnwys dogfennaeth adnabod, gwiriadau geirda gan gyn cyflogwyr a gwiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd cyfredol. Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi yn eu rolau. Caiff y staff gofal eu hyfforddi'n briodol, ac mae'r rhan fwyaf o'r staff wedi cael yr holl hyfforddiant diweddaraf sydd ar gael iddynt. Caiff amrywiaeth o hyfforddiant ei gynnig, gan gynnwys sesiynau wyneb yn wyneb yn ogystal â chwrs hyfforddiant ar-lein. Mae'r staff gofal yn canmol yr hyfforddiant a ddarperir, a dywedodd un ohonynt *“There is tonnes of training on offer, I feel very well trained”.* Caiff y staff gofal eu cefnogi i gwblhau cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol fel QCF.

Mae'r staff gofal yn cymryd rhan mewn sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniadau blynyddol ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda ac y gwrandewir arnynt. Roedd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw yn hapus yn eu gwaith ac yn rhoi sylwadau canmoliaethus am y gwasanaeth. Mae'r sylwadau yn cynnwys *“working for Perthyn has been an amazing experience, everyone is important here, the way the management team make you feel important and valued. They listen and don’t judge and try to find solutions”* a *“the directors and manager are all approachable, they’re understanding, I don’t have to worry, I can ask them anything”.* Mae'r staff gofal wedi'u cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, sef rheoleiddiwr y gweithlu, neu'n gweithio tuag at gofrestriad.

# Meysydd i'w gwella a nodwyd

Lle byddwn yn nodi **Meysydd i'w Gwella** ond na fyddwn wedi canfod bod y bobl yn wynebu risg uniongyrchol neu sylweddol, byddwn yn eu trafod â'r darparwr. Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu a byddwn yn ystyried y mater eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

Lle byddwn yn canfod bod yn **rhaid gwella'r** canlyniadau i'r bobl **yn sylweddol** a/neu fod risg i lesiant y bobl, byddwn yn nodi meysydd **Gweithredu â Blaenoriaeth**. Yn yr amgylchiadau hyn, byddwn yn cyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth i'r Darparwr, a rhaid iddo gymryd camau ar unwaith i wneud gwelliannau. Byddwn yn cynnal arolygiad arall ymhen chwe mis er mwyn cadarnhau bod gwelliannau wedi'u gwneud a bod y canlyniadau i'r bobl wedi gwella.

**Ni nododd AGC unrhyw feysydd i'w gwella yn dilyn yr arolygiad hwn.**

**Nid yw AGC wedi cyhoeddi unrhyw Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth yn dilyn yr arolygiad hwn.**

This report is also available in English

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2025.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*